



Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod Cyngor Llawn Nos Iau 12fed o Ionawr 2023 yng Nghanolfan Gymunedol Penrhosgarnedd am 7.00 y.h

Agenda

1. Presennol:
2. Ymddiheuriadau:
3. Datgan buddiant
4. Derbyn Cofnodion 10fed o Dachwedd
5. Materion yn codi
6. Materion ariannol
 - i. Mantolen ariannol
 - ii. Archwyllo Allannol
 - iii. Cofnodion cyfarfodydd IBC 30/11/2022
7. Cynllunio

Dim cais i fynegu barn arnynt o fewn yr 21 dwirnod dwaeth
8. Materion y Clerc
 - Hysbysebu Sedd Wag / Cyfethol
 - Ail ymateb i lythyr Pont y Borth
 - Diffib Treborth
 - Cyfarfod Pwyllgor Canolfan Glasinfryn Nos Lun 16-01-23 am 7.00y.h
 - Ganolfan newydd
 - Unrhyw ddiweddariad
 - Rheoli
 - Cae Chwarae Caerhun
 - 2 ddyfnbris
 - Penderfyniad
 - Capel y Fynwent
 - 2 ddyfnbris
 - Penderfyniad
 - Cysgodfannau Bws
 - Dyfnbris
 - Penderfyniad
 - **CYTUNO AR GYLLIDEB 2023-24**
 - Cynllun Hyfforddiant
 - Ffurflenni Cynllun Dysgu Cynghorwyr
 - Proffil aelodau i'r wefan
9. Materion y Cynghorwyr
 - a. Cyng B Jones Goleuadau ar Ffordd Menai/Allt dywyll
 - b. Cyng Pentir
 - i. Mabwysiadu Llwybr heibio'r Lodge
 - ii. Cael bwrdd yn y sgwar yn Pentir yn adrodd hanes y sgwar



Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion cyfarfod Cyngor Llawn Nos Iau 10fed o Dachwedd 2022 gynhalwyd yng Nghanolfan Gymunedol Penrhosgarnedd am 7.00 y.h

1. **Presennol:** Cyng M Lynch – Cadeirydd. Cyng L A James; Cyng J Pierce, Cyng B Jones, Cyng E Jones, Cyng M Baines, Cyng I Ellis, Cyng A Joyce
a’r Clerc E Jones
2. **Ymddiheuriadau** Cyng D Jones-Morris; Cyng C.W Owen; Cyng J Lewis; Cyng D W Jones, Cyng Dafydd Meurig

Croesawyd pawb i’r cyfarfod gan y cadeirydd

3. Datgan buddiant Esbonwyd y drefn i ddatgan buddiant sydd bellach yn haws wrth ein bod yn cyfarfod wyneb yn wyneb a ffurflenni ar gael gan y Clerc
Cynghorwyr L A James, J Pierce, E. Jones a M Baines yn datgan buddiant ar 14.2 gan eu bod yn aelodau o Bwyllgor Rheoli’r Ganolfan bresennol
4. Derbyn Cofnodion 13eg o Hydref
Cynnigwyd eu bod yn gofnodion cywir gan y Cyng M Baines ag eilwyd gan y Cyng B Jones
5. Materion yn codi
Llwybr Treborth
Cadarnhawyd fod Cyngor Gwynedd bellach wedi cychwyn cysylltu gyda thystion ond bod eto beth amser cyn daw y broses gyfreithiol a phenderfyniad i ben gan fod angen cyfnod pellach ar gyfer holi a thrafod hyda’r tirlfeddianwyr.
Rheoli y Ganolfan Newydd
Nid oedd cyfarfod rhwng y Cyngor a Phwyllgor Rheoli y ganolfan bresennol i drafod Rheolaethu y ganolfan newydd wedi ei gynnal ac awgrymwyd cynnal y cyfarfod hwnnw yr un noson a Chyfarfod Blynnyddol y Ganolfan oedd i’w drefnu
Cytunwyd eto i gynnwys fel rhan o’r agenda misol
6. Materion ariannol
‘Roedd cofnodion Is-Bwyllgor Cyllid 26ain o Hydref ynhyd a mantolen ariannol wedi ei rhannu yn dangos gwariant a derbyniadau. Nodwyd fod £46,547.66 yn y cyfrif cyfredol a £45,064.37 yn y Cyfrif Cadw
Adroddodd y Clerc tra bod rhai prosiectau wedi ei prasio mi oedd yn anodd cael prisiau i gymharu ond byddai’n parhau i holi
Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd ynglyn a pham fod y ddwy ochr i ardal Pentir wedi derbyn cysgodfannau newydd T 2 a lle mae Cysgodfan Capel Graig arni erbyn hyn
Archwyllo Allannol
Cafwyd cadarnhad o Swyddfa Archwyllo Cymru ar yr 24ain o Hydref fod adroddiadau terfynol am y Blynnyddoedd 2019-20 a 2020-21 wedi eu cwblhau a dim problemau wedi eu darganfod.
Nid oedd son am adroddiad derfynol am 2021-22



Cyngor Cymuned Pentir

7. C22/0978/25/DT 34 Cilfach Crwys, Bangor, LL57 2QA :

Codi porth i flaen yr eiddo / Erection of porch **Dim Gwrthwynebiad**

C22/0800/25/LL : Vaynol Arms, Pentir, Bangor, Gwynedd, LL57 4EA

Newid defnydd llawr gwaelod tŷ tafarn yn ddwy uned wyliau

Gwrthwynebiad eisioes wedi ei anfon

C22/0899/25/LL: Ysgubor Wern Lôn Wern, Pentir, Bangor, Gwynedd, LL57 4BY

: Newid defnydd tir gwag yn safle podiau glampio. **Dim Gwrthwynebiad**

C22/0982/25/RA Tŷ Menai Ffordd Penlan, Parc Menai, Bangor, Gwynedd, LL57 4HJ Bwriad Cais i ryddhau Amod 4 (Cynllun Gwelliannau Bioamrywiaeth) o ganiatâd cynllunio a roddwyd drwy apêl cyf. APP/Q6810/A/21/3280223 (cais cynllunio C20/1056/25/LL) ar gyfer newid defnydd adeilad o ddefnydd Dosbarth B1 (swyddfeydd) i Ddefnydd Dosbarth D1 (sefydliadau di-breswyl)

8. Materion y Clerc

- Llythyr Pont y Borth **Dim ymateb wedi ei dderbyn hyd yma**
- Rheolaeth o'r Ganolfan newydd **Angen trefnu cyfarfod hefo Pwyllgor y Ganolfan i drafod opsiynau**
- Cae Chwarae Caerhun Wedi derbyn un dyfnbris ag er wedi gofyn am un gan gwmni arall dim wedi cyrraedd awgrymwyd enw Cwmni arall **Clerc i Gysylltu hefo nhw**
- Cyfarfod Pwyllgor Canolfan Glasinfryn 12/11/22
 - Cynrychiolydd y Cyngor Cytunwyd i anfon cynrychiolydd ond efallai na fyddai'n bosib anfon un enw penodol ag amhosib cael neb i fynd mewn deuddydd **Clerc i gysylltu i esbonio**
- Cyflog y Clerc Nodwyd fod cytundeb cenedlaethol wedi ei gymeradwyo i godi cyflogau Clercod sy'n golygu fod cyflog y Clerc sydd ar lefel 23 o raddfa SLC yn codi o £14.67 yr awr i £15.67 **Clerc i anfon y manylion at ein Cyfrifwyr sy'n trefnu y gyfloges**
- Cynllun Hyfforddiant
 - Dosbarthwyd ffurflenni Cynllun Dysgu i bob Cyngorwydd oedd yn bresennol a gofyn iddynt eu cwblhau a'i dychwelyd ar gyfer y cyfarfod nesaf yn Rhagfyr fel y gallwn wedyn ddarparu Cynllun Hyfforddiant ar gyfer y Cyngor
- Proffil aelodau i'r wefan Atgoffwyd y Cyngorwyr oedd unai wedi eu ethol neu eu cyfethol ers Mis Mai fod angen ychydig o wybodaeth a llun ohonynt i roi ar Wefan y Cyngor
- Cais i gyfieithu mewn pwyllgor – 'Roedd y Clerc wedi derbyn cais gan y Cyng A Joyce (sy'n dysgu Cymareg) ei fod ar adegau yn cael trafferth cymeryd rhan mewn trafodaethau oherwydd nad oedd wedi gallu dilyn y sgwrs. Yn sgil hynny mi oedd y Clerc wedi gwneud ymholiadau hefo Cwmniau Cyfieithu er mwyn cadarnhau costau a.y.y.b. Daeth yn amlwg fod rhai o'r Cyngorwyr yn adnabod cyfieithydd lleol fyddai efallai yn fodlon ymgymeryd a'r gwaith. **Cytunwyd iddynt wneud ymholiadau ac os byddai yn bosib dod i gytundeb i anelu tuag at gael y gwasanaeth i gychwyn yn Mis Ionawr**
- Sul y Cofio Dwy dorch wedi eu prynu ar gyfer Sul y Cofio ond oherwydd fod Egwys Sant Pedr heb ail-agor ers y pandemig mae ond un fyddai ei angen i'r dyfodol



Cyngor Cymuned Pentir

9 Materion Cyngorwyr

Cyng Menna Baines

Cyfarfod Mis Rhagfyr/Pwyllgor Canolfan Penrhos

Trafodwyd cyfuno os yn bosib Cyfarfod Blynyddol y Ganolfan a'r Cyngor Llawn yn ystod Rhagfyr i geisio cychwy sgwrs ar y ffordd ymlaen i Reoli'r Ganolfan newydd yn ogystal a beth ellir ei gyllido gan y Pwyllgor a chan y Cyngor

Cyng Menna Baines /Cyng Eleri Jones Llwyr Treborth

Y camau nesaf wedi ei amlinnellu dan Materion yn Codi. Datgelwyd consyrn fod manylion enwau a chyfeiriadau tystion wedi ei rannu gyda'r tirlfeddianwr yn sgil ei gais dan Ddeddf Ryddid Gwybodaeth i Cyngor Gwynedd.

Cyng D Jones Morris

Cysgodfannau Ffordd Penrhos

Yn ei absenoldeb 'roedd y Cynghorydd wedi datgan ei bryder unwaith eto ynglyn a diffyg Cysgodfannau Bws ar Ffordd Penrhos ag i holi oes oedd posib i'r Cyngor gyllido ar gyfer cael Cysgodfan wrth Goleufryn a Bryn Ogwen

Nodwyd fod bwriad gan Cyngor Gwynedd (drwy grant Llyw Cymru) i adnewyddu y gysgodfan bresennol yn Capel Graig a'n bod fel Cyngor wedi gofyn os byddai yn bosib iddynt unai leoli yr un bresennol neu osod un newydd dros y lon ble mae Safle Bws yn barod

Cyn prynu a gosod unrhyw gysgodfan byddai angen sicrhau fod y trigolion cyfagos yn fodlon derbyn cysgodfan wrth eu tai a chael cyd-weithrediad Cyngor Gwynedd

Daeth y cyfarfod i ben am 8.50